# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
# Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025
# Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol (SID), yn Cadeirio |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (dros Teams) |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| Anne Beegan | Aelod cyflogai etholedig |
| Chris Bolton | Aelod cyflogai etholedig |
| Michael Norman | Aelod anweithredol |
| Richard Thurston | Aelod anweithredol |
| **Ymddiheuriadau:** | Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (eitemau 1 to 5) |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd |
| Darren Griffiths | Aelod cyflogai penodedig |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredu Cyfathrebu a Newid (EDCC) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS) |
| Kevin Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitem 6) |
| Darren Evans | Partner Caffael (eitemau 7 ac 8) |
| Richard Harries | Cyfarwyddwr Archwilio (eitem 9) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd, Swyddog Diogelu Data (eitemau 10 ac 11) |
| Kathleen Job | Arbenigwr Cyfraith a Moeseg, Dirprwy Swyddog Diogelu Data (eitem 11) |
| Anthony Veale | Cyfarwyddwr Archwilio (eitemau 12 a 13) |
| Victoria Roberts | Archwilydd Uwch (eitemau 12 a 13) |
| Ceri Hughes | Rheolwr Rhaglen Newid (eitemau 12 a 13) |
| Abigail Phillips | Rheolwr Prosiect Newid (eitemau 12 a 13) |
| **Arsylwyr:** | |
| Andrew Sear | Graddedig dan Hyfforddiant |
| Helen Rees-Jones | Arbenigwr Cyfraith a Moeseg |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso ac ymddiheuriadau |
| 2 | Datganiadau o fuddiant |
| 3 | Adolygiad o waith tracio camau gweithredu |
| 4 | Diweddariad y Cadeirydd |
| 5 | Adroddiad y Prif Weithredwr a’r Archwilydd Cyffredinol |
| 6 | Amcangyfrif Atodol |
| 7 | Contact Teithio a Llety |
| 8 | Contact Trwyddedu Microsoft 365 |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 9 | Estyniad Contract Anguilla |
| 10 | Cynllun Blynyddol 2025-26 |
| 11 | Adroddiad Blynyddol y Swyddog Diogelu Data |
| 12 | Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (cyfarfod mis Chwefror) |
| 13 | Rheoli Amser ac Adnoddau / Hub Planner: adolygiad ac arddangosiad |
| 14 | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 15 | Unrhyw faterion eraill |
| 16 | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 17 | Dyddiad y cyfarfodydd nesaf: (dydd Mercher 25 a dydd Iau 26 Mehefin 2025) |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1** | **Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y SID aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd ymddiheuriad am absenoldeb gan Ian Rees ac na fyddai Darren Griffiths yn bresennol, yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd i alluogi'r Bwrdd i fodloni gofynion cworwm. | |
| **2** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 2.1 | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | |
| **3** | **Adolygiad o waith tracio camau gweithredu** | |
| 3.1 | Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth ddiweddaraf am gyflawniad camau gweithredu ar draciwr camau gweithredu'r Bwrdd. | |
| 3.2 | Trafododd y Bwrdd gam gweithredu WAOB/24/031 (adrodd ariannol) a gofynnodd i ddadansoddiad gael ei ddarparu i esbonio'r berthynas rhwng newidiadau i incwm a gwariant ar gyfer 11 mis y flwyddyn hyd yma i roi gwybodaeth i aelodau cyn eu hystyriaeth o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn diweddaru'r cam gweithredu i adlewyrchu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Bwrdd. | EDCS / Pennaeth Cyllid/ BS |
| **4** | **Diweddariad y Cadeirydd** | |
| 4.1 | Cyflwynodd y SID adroddiad y Cadeirydd ar waith a wnaed ers y cyfarfod diwethaf. Rhoddodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y caffael ar gyfer adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd. | |
| 4.2 | Nodwyd y diweddariad gan y Bwrdd. | |
| **5** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 5.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei ddiweddariad ac amlygodd:<br>• ymgysylltiad â Phwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a sesiynau briffio a gynlluniwyd ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol;<br>• gwerth gweithio ar y cyd â chyrff archwilio cyhoeddus eraill, gan gynnwys prosiect i gyd-ddatblygu llawlyfr archwilio cyfrifon newydd gyda'r NIAO;<br>• bod y materion ailwampio a TAW o ran Swyddfa Penllergaer wedi cael eu datrys yn foddhaol, a'i fod yn ddiolchgar i'r Pennaeth Gwasanaethau Busnes a'r EDAS am eu gwaith i gyflawni hyn yn gyflym; a<br>• bod y Pennaeth Adnoddau Dynol wedi ennill Diploma CIPFA mewn Sgiliau Cyllid ar gyfer Rheolwyr Sector Cyhoeddus – y gwnaeth y Bwrdd ei longyfarch arno. | |
| 5.2 | Nododd y Bwrdd y bu cydnabyddiaeth o waith yr Archwilydd Cyffredinol a staff yn Archwilio Cymru ac adborth cadarnhaol ar y gwaith hwn mewn gwahanol ddigwyddiadau wythnos Cymru yn Llundain, yr oedd Michael Norman yn bresennol ynddynt, ac y byddai'n rhannu'r adborth hwn gyda staff. | MN |
| 5.3 | Mewn ymateb i gwestiwn am unrhyw oblygiadau posibl o newidiadau a gynigiwyd gan lywodraeth y DU, fel ynghylch GIG Lloegr, esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol bod strwythur y GIG yn wahanol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yn rhagweld y gallai newidiadau posibl i Gymru ddod i'r amlwg trwy faniffestos gwleidyddol yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd ac y byddai'n cynnal briff gwyliau ar gyfer cynigion a allai arwain at oblygiadau i'w waith ac i Archwilio Cymru. | |
| 5.4 | Nodwyd y diweddariad gan y Bwrdd. | |
| **6** | **Amcangyfrif Atodol** | |
| 6.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Amcangyfrif Atodol 2025-26 o ran cyllid ar gyfer costau Yswiriant Gwladol ychwanegol yn deillio o gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2024. Esboniodd yn gryno:<br>• y newidiadau i Yswiriant Gwladol;<br>• bwriad Llywodraeth y DU i ddigolledu cyflogwyr sector cyhoeddus am gost y cynnydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf (er nad oedd dyraniadau wedi'u cadarnhau eto);<br>• bod adolygiad wedi cael ei gynnal i ddarganfod a allai Archwilio Cymru ariannu'r gost ychwanegol trwy nodi arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ond oherwydd targed arbedion sydd eisoes yn heriol o £200,000 sydd wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2025-26, nid oedd yn bosibl gwneud hynny; a | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • bod amseriad cyhoeddiad y gyllideb yn golygu nad oedd y costau ychwanegol wedi'u hymgorffori yn Amcangyfrif Archwilio Cymru ar gyfer 2025-26 a osodwyd gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 31 Hydref 2024. | |
| 6.2 | Cymeradwyodd y Bwrdd Amcangyfrif Atodol 2025-26 i'w gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd. | |
| **7** | **Contract Teithio a Llety** | |
| 7.1 | Cyflwynodd y Partner Caffael bapur yn amlinellu proses a chanlyniad ymarfer ail-gaffael ar gyfer Gwasanaethau Teithio a Llety ac esboniodd bod angen cymeradwyaeth y Bwrdd oherwydd gwerth cronnol y contract. | |
| 7.2 | Trafododd y Bwrdd:<br>• y broses ar gyfer diwydrwydd dyladwy a gwerthuso ansawdd cyflenwyr, a ddigwyddodd ar yr adeg pan ymunodd cyflenwyr â fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron;<br>• ystyriaethau gwerth cymdeithasol, gan nodi'r meini prawf a'r pwysoliad yn y fframwaith ar gyfer gwerth cymdeithasol, ac er nad yw bob amser yn bosibl caffael gwasanaethau lleol yn uniongyrchol, roedd manteision cyflogaeth ac economaidd i'r ardaloedd lleol o hyd;<br>• y cyfleoedd i gaffael drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru, gan nodi nad oedd y rhain yn dyblygu fframweithiau a gynigir drwy Wasanaethau Masnachol y Goron yn gyffredinol; a<br>• lleoliad y cyflenwr arfaethedig, gan nodi bod ei staff a'i ganolfannau galwadau wedi'u lleoli yn y DU. | |
| 7.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd ddyfarniad y contract teithio a llety i Clarity Travel Ltd am dair blynedd o 01 Mai 2025, ag opsiwn i ymestyn am flwyddyn ychwanegol. | |
| **8** | **Contract Trwyddedu Microsoft 365** | |
| 8.1 | Cyflwynodd y Partner Caffael bapur yn amlinellu proses a chanlyniad ymarfer ail-gaffael ar gyfer trwyddedu Microsoft 365 ac esboniodd bod angen cymeradwyaeth y Bwrdd oherwydd gwerth cronnol y contract. Amlygodd bod Archwilio Cymru wedi ymuno ag ymarfer caffael cyfanredol a gynhaliwyd gan Wasanaethau Masnachol y Goron a oedd wedi sicrhau prisiau gwell trwy gyfuno anghenion trwyddedu Archwilio Cymru â rhai deg corff sector cyhoeddus arall. | |
| 8.2 | Trafododd y Bwrdd broses a manteision yr ymarfer cyfanredu, gan gynnwys sut y gallai'r sector cyhoeddus ehangach elwa o'r math hwn o ymarfer caffael, gan nodi bod y trwyddedau a roddwyd yn benodol i Archwilio Cymru ac nid wedi'u rhannu. | |
| 8.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd ddyfarniad y contract trwyddedu Microsoft 365 i Ultima Business Solutions am dair blynedd o 01 Mai 2025, ag opsiwn i ymestyn am flwyddyn ychwanegol. | |
| **9** | **Ymestyn Contract Anguilla** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 9.1 | Cyflwynodd yr EDAS bapur yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i ymestyn contract gyda Llywodraeth Anguilla i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021, 2022 a 2023 ac esboniodd ei bod hefyd yn gofyn am ddynodiad o barodrwydd y Bwrdd i ystyried mwy o waith wedi'i gomisiynu. | |
| 9.2 | Amlinellodd y Cyfarwyddwr Archwilio fanteision a risgiau ymestyn y contract a'r incwm ffioedd y byddai'n ei gynhyrchu a chadarnhaodd na fyddai ymgymryd â'r gwaith yn peryglu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Amlinellodd hefyd y cyfleoedd pellach a allai fod ar gael o ran Anguilla a Thiriogaeth Tramor ehangach y DU, a sut y gallai'r gwaith hwnnw gefnogi darpariaeth tymor canolog a gwaith cynllunio'r gweithlu. | |
| 9.3 | Trafododd y Bwrdd risgiau a manteision ymestyn y contract i gwblhau'r archwiliadau ar gyfer 2021, 2022 a 2023, gan gynnwys:<br>• y sail ar gyfer estyniad contract pellach, a fyddai'n cynnig lefel o sicrwydd i alluogi llywodraeth newydd Anguilla i sicrhau bod eu harchwiliadau yn gyfredol cyn ail-dendro'r contract;<br>• sicrhau bod y Senedd a'i Phwyllgorau yn ymwybodol i'r gwaith;<br>• ystyriaeth enw da, gan nodi nad oedd yr archwiliad yn ymrwymiad glamoraidd ac yn darparu cymorth gwerthfawr i diriogaeth tramor Prydeinig sy'n hunanlywodraethu;<br>• y contract, a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i ddarparu mesurau diogelu priodol;<br>• sicrhau ansawdd ar gyfer yr archwiliad, gan nodi bod staff profiadol yn cymryd rhan yn ei ddarpariaeth, bod prosesau ansawdd arferol yn cael eu gweithredu ac y gellid gofyn i'r Adran Sicrhau Ansawdd gynnwys yr archwiliad yn eu hadolygiad;<br>• yr effaith ar ôl troed carbon Archwilio Cymru, gan nodi bod teithio i Anguilla wedi'i gymryd i ystyriaeth mewn amcanestyniadau amgylcheddol, ond ei fod yn digwydd cyn lleied â phosibl ac wedi'i drefnu i fod mor effeithlon â phosibl;<br>• gofyn am sicrwydd bod y Cyfarwyddwr Archwilio fel Prif Archwilydd yn cael ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau a'i fod yn fodlon bod yr argymhellion archwilio yn cael sylw; a'r<br>• sefyllfa tymor hwy a pha un a oedd gwaith o'r fath yn cyd-fynd â strategaeth ehangach y sefydliad. | |
| 9.4 | Gan gymryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth, cymeradwyodd y Bwrdd yr ymestyniad i'r contract i gyflenwi'r gwasanaeth archwilio allanol ar gyfer cyfrifon statudol llywodraeth Anguilla ar gyfer 2021, 2022 a 2023. Nododd y Bwrdd y byddai angen i unrhyw gontractau yn y dyfodol gyd-fynd yn strategol â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. | |
| 9.5 | Trafododd y Bwrdd yn gryno y potensial ar gyfer gwaith wedi'i gomisiynu pellach yn y dyfodol, gan nodi y byddai'r pwyslais ar gyfer y 18 mis nesaf | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | ar gyflawni gwaith statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Cytunodd y Bwrdd y dylid ymgorffori papur ar y strategaeth gwaith wedi'i gomisiynu yn ei flaenraglen waith. | |
| **10** | **Cynllun Blynyddol 2025-26** | |
| 10.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y Cynllun Blynyddol drafft agos at fod yn derfynol ar gyfer 2025-26 a gymerodd fewnbwn y Bwrdd i ystyriaeth. | |
| 10.3 | Diolchodd y Bwrdd i'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd am ei waith yn datblygu'r cynllun gan<br>• gymeradwyo'r cynllun blynyddol drafft agos at fod yn derfynol, ac<br>• awdurdodi'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwy'r fersiwn derfynol i'w gosod. | Cadeirydd / Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| **11** | **Adroddiad Blynyddol y Swyddog Diogelu Data** | |
| 11.1 | Cyflwynodd y Swyddog Diogelu Data ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-25 gan amlinellu gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd a chynnig diweddariad ar ddatblygiadau a risgiau gyda phrosesu data personol. Esboniodd yn dilyn ymadawiad y Swyddog Diogelu Data blaenorol ar seibiant gyrfaol ei fod ef a'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data wedi adolygu'r rhaglen waith ac wedi nodi'r risgiau diogelu data allweddol sy'n wynebu Archwilio Cymru gyda'r bwriad o hysbysu eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. | |
| 11.2 | Trafododd y Bwrdd:<br>• y newidiadau i ddeddfwriaeth, gan nodi y rhagwelwyd diwygiadau sylweddol a bod y Swyddog Diogelu Data a'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data yn monitro datblygiad y ddeddfwriaeth a'i heffaith bosibl yn agos;<br>• y rheolaethau ar waith i sicrhau cydymffurfiad o ran diogelu data, gan nodi'r fframwaith polisi a swyddogaeth perchnogion asedau gwybodaeth o ran sicrhau cydymffurfiad;<br>• gweithgarwch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys mecanweithiau i brofi gwybodaeth a chydymffurfiad, gan nodi y byddai sesiynau dal i fyny rheolaidd yn cael eu trefnu gyda pherchnogion asedau gwybodaeth i wneud gwiriadau;<br>• toriadau diogelwch data, gan nodi na fu unrhyw doriadau yr oedd angen eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a bod staff yn weithredol o ran adrodd mân doriadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a chymryd unrhyw gamau unioni a gynghorwyd; a'r | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • camau a gymerwyd i liniaru'r risg o doriadau diogelwch data, gan nodi bod hyfforddiant, canllawiau a chodi ymwybyddiaeth yn cefnogi hyn, ond bod gwall dynol yn dal i fod yn ffactor risg. | |
| 11.3 | Diolchodd y Bwrdd i'r Swyddog Diogelu Data a'r Dirprwy Swyddog Diogelu Data am gamu i mewn i'w swyddi, ac am adroddiad eglur a didwyll a nodwyd ganddo. | |
| **12** | **Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** | |
| 12.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 27 Chwefror 2025. Esboniodd bod y Pwyllgor:<br>• wedi trafod pryderon ynghylch cyflawni gwaith archwilio mewnol, a oedd wedi arwain iddo ysgrifennu at y Pennaeth Archwilio Mewnol a datblygiad cynllun gwella a fyddai'n cael ei fonitro'n agos;<br>• wedi cynnal adolygiad trwyadl o ran seilwaith TG ac er ei fod wedi'i sicrhau'n addas bod rheolwyr yn cymryd camau priodol i liniaru'r risg, roedd mwy i'w wneud i fynd i'r afael â'r dirwedd ddigidol ddatblygol a chomisiynwyd adolygiad annibynnol i helpu i fapio opsiynau;<br>• heb nodi pwnc ar gyfer ymchwiliad trwyadl yn y dyfodol ac, yn dilyn trafodaeth gyda'r EDCS, roedd yn bwriadu cynnig dull diwygiedig a fyddai'n golygu bod y Pwyllgor yn cynnal adolygiadau â phwyslais o'r cynlluniau lliniaru ar gyfer risgiau presennol i roi sicrwydd wedi'i dargedu mwy;<br>• wedi ystyried a chefnogi'r datganiad parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig; ac<br>• wedi ystyried a chefnogi newidiadau arfaethedig i'r Llawlyfr Rheoli Ariannol o ran gwariant cyfalaf, perchnogion asedau anniriaethol a gwaredu asedau. | |
| 12.2 | Trafododd y Bwrdd yn gryno y pryderon a godwyd o ran cyflawni gwaith archwilio mewnol a'r camau nesaf, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cyflawni gwaith archwilio mewnol yn y dyfodol. | |
| 12.3 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gymeradwyo'r datganiad parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig;<br>• cymeradwyo'r Llawlyfr Rheoli Ariannol diwygiedig; a<br>• nodi'r papur fel arall. | |
| **13** | **Rheoli Amser ac Adnoddau / Hub Planner** | |
| 13.1 | Cyflwynodd yr EDAS gyflwyniad a oedd yn amlinellu:<br>• y cefndir i ddatblygiad a gweithrediad Hub Planner;<br>• yr heriau a nodwyd o ran busnes yn mabwysiadu Hub Planner;<br>• y camau a gymerwyd a'r gwelliannau a wnaed i ddatrys y problemau a nodwyd;<br>• y gwersi a ddysgwyd a sut y byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar waith mewn prosiectau yn y dyfodol; a'r | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • sefyllfa bresennol, gan gynnwys canlyniad cadarnhaol yr adolygiad archwilio mewnol. | |
| 13.2 | Esboniodd Rheolwr y Rhaglen Newid:<br>• bod y prosiect Hub Planner wedi cael ei sbarduno gan angen i ddisodli meddalwedd na fyddai'n cael ei chefnogi mwyach, ac nid oedd cyd-destun ehangach y system wedi cael ei archwilio'n llawn yn ystod camau cynnar y prosiect; a<br>• sut y defnyddiwyd y dadansoddiad a'r dysgu o'r ymarfer dysgu ôl-brosiect i ddatblygu egwyddorion y prosiect newid, wedi'u gwreiddio mewn arferion da, a fyddai'n cael eu rhoi ar waith mewn prosiectau trawsnewid busnes yn y dyfodol. | |
| 13.3 | Trafododd y Bwrdd:<br>• y newid diwylliannol y byddai ei angen o gyflwyno system TG newydd, gan nodi er y bu cyfathrebu ac ymgysylltu bod y prosiect wedi cael ei sefydlu yn syth ar ôl y pandemig pan roedd llawer llai o weithio personol ac nad oedd ymgysylltu mor helaeth ag y gallai fod wedi bod;<br>• gwrthwynebiad i'r system newydd a'r rhesymau posibl am hynny, gan nodi er bod cydymffurfiad wedi gwella bod angen rheoli llinell cadarnhaol i archwilio ansicrwydd staff ynghylch defnydd o'r system ac i gefnogi cydymffurfiad, a oedd yn debygol o ymddangos yn rhan o'r broses rheoli perfformiad;<br>• yr heriau o weithredu newid a'r bylchau yn y broses a ddilynwyd, gan nodi bod cyflymder yr ymateb i bryderon a godwyd yn adlewyrchu aeddfedrwydd y sefydliad o ran cydnabod y problemau a mynd i'r afael â nhw yn gyflym ac yn dda;<br>• defnydd o'r sioeau teithiol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystod hydref 2024 i amlinellu'r materion a godwyd a'r camau a gymerwyd mewn ymateb; a<br>• defnyddio'r egwyddorion fel sylfaen ar gyfer newid sefydliadol yn y dyfodol a chymryd amser i archwilio a nodi'n llawn problemau busnes ac atebion posibl. | |
| 13.4 | Rhoddodd yr Archwilydd Uwch arddangosiad i weithrediad ac ymarferoldeb Hub Planner gan dynnu sylw at y canllawiau manwl i ddefnyddwyr a'r rhestrau gwirio sydd ar gael ar yr HUB. | |
| 13.5 | Cofnododd y Bwrdd ei ddiolch am y cyflwyniad a'r drafodaeth agored ac addysgiadol, ac arddangosiad cynorthwyol o'r system. | |
| **14** | **Adolygiad o'r flaenraglen waith** | |
| 14.1 | Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd flaenraglen waith y Bwrdd ar gyfer 2025-26 ac esboniodd y gofynnwyd am fewnbwn gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ar unrhyw faterion eraill yr oeddent yn disgwyl eu rhannu â'r Bwrdd dros y flwyddyn nesaf. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Iau 20 Mawrth 2025**
**Cynhaliwyd yn swyddfa Caerdydd Swyddfa Archwilio Cymru a dros Teams**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **15** | **Unrhyw faterion eraill** | |
| 15.1 | Nododd yr EDCC bod paratoadau ar y gweill ar gyfer y rownd nesaf o sioeau teithiol ac y byddai'n briffio aelodau'r Bwrdd maes o law. | |
| 15.2 | Adroddodd yr EDAS y bu ymateb cadarnhaol i'r ymgyrch recriwtio ar gyfer y rhaglen graddedigion dan hyfforddiant, ond llai o geisiadau ar gyfer y cynllun prentisiaeth. | |
| **16** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 16.1 | Nododd y Bwrdd adborth gan arsylwyr, a wnaeth sylwadau ar y trafodaethau didwyll, lefelau cryf o her a'r ymdeimlad amlwg o dîm. | |
| **17** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 17.1 | Cyfarfod y Bwrdd – dydd Iau 26 Mehefin 2025 | |